

## ROBERTS, ELLIS ('Elis Wyn o Wyrfai'; 1827-1895), ei dad MORRIS ROBERTS ('Eos Llyfnwy'), a'i daid ROBERT MORRIS ('Robin Ddu Eifionydd')

**Enw:** Ellis Roberts

**Ffugenw:** Elis Wyn O Wyrfai, Eos Llyfnwy, Robin Ddu Eifionydd

**Dyddiad geni:** 1827

**Dyddiad marw:** 1895

**Priod:** Esther Mary Roberts (née Roberts)

**Plentyn:** Esther Margaret Jones (née Roberts)

**Plentyn:** J.R. Roberts

**Rhiant:** Morris Roberts

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Barddoniaeth; Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** William Llewelyn Davies

### ROBERT MORRIS Robin Ddu Eifionydd (fl. 1767-1816), melinydd a bardd

Mab oedd i Morris Roberts a'i wraig Elin Williams, Pen Garth (Tŷ Popty ?), Llanystumdwy; bedyddiwyd ef yn eglwys Llanystumdwy, 16 Ebrill, 1769. Dysgodd grefft llinwr (y mae'n debyg iddo fod yn felinydd yn ddiweddarach). Ysgrifennodd farddoniaeth gaeth a rhydd a chyhoeddodd lyfr, *Ffurf yr Athrawiaeth Iachus* (Caernarfon, 1816), yn amddiffyn ei egwyddorion fel Bedyddiwr. Rhydd *Spinther*, iii, 342-3, deitlau rhai o'i ganeuon (yn eu plith y mae 'Cerdd i Mr. Madog a'i Dref' - gweler *Madocks, W. A.*, a cheir copi o 'Eryn ar Ddydd Ympryd' gan 'Robert Morys, Bryn y gro, yn agos i Lanllyfni,' yn *Corph y Gaingc*, 1810 (gol. *D. Thomas, 'Dafydd Ddu Eryri'*). Mewn llythyr gan *John Jones ('Myrddin Fardd')* yn *Geninen* 1883, 238 rhoddir teitlau tair awdl a ysgrifennodd 'Robyn Ddu,' sef 'Llesoldeb Gwybodaeth', 1799; 'Dedwyddwch,' 1802; a 'Rhagluniaeth,' 1803. Ni wyddys pa bryd y bu farw, ond fel y gwelir cyhoeddodd lyfr yn 1816. Claddwyd ef yng ngladdfa'r Bedyddwyr Neilltuol, Garn Dolbenmaen. Heblaw 'Eos Llyfnw' yr oedd iddo fab o'r enw EDWARD MORRIS, pregethwr y bu iddo law yng nghychwyniad achos Cymraeg y Bedyddwyr yn Birmingham (*Spinther*, iv, 397).

### MORRIS ROBERTS (Eos Llyfnwy) (c. 1797 - 1876), melinydd a bardd

Dwyed *John Jones ('Myrddin Fardd')* yn *Enwogion Sir Gaernarfon* mai ychydig o'i waith barddonol a gyhoeddwyd; gwyddys ddarod cyhoeddi ei Awdl Marwnad y Parch. Edward Jones, A.C., Curad Parhaus Llandegai ... yr hwn a fu farw Rhagfyr 15fed 1845. Bu farw 25 Gorffennaf 1876, yn 79 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfyllteyrn.

### ELLIS ROBERTS ('Elis Wyn o Wyrfai') (1827 - 1895), clerigwr a llenor

Ganwyd 13 Chwefror 1827 yn Llwyn Gwalch, Llandwrog, Sir Gaernarfon, trydydd mab Morris Roberts ('Eos Llyfnwy'), a Margaret ei wraig. Bu'n gweithio ym melin ei dad o'r adeg yr oedd tuag 11 oed nes oedd yn 23 pryd yr aeth am tua hanner blwyddyn i ysgol *Ebenezer Thomas* ('Eben Fardd'), a ganodd 'Cywydd Brud i Ellis Roberts, bardd ieuanc, ac un o ysgolorion Eben Vardd yn 1850.' O ysgol Clynnog aeth i goleg hyfforddi Caernarfon i'w gymhwyso ei hun i fod yn athro ysgol. Bu'n cadw ysgol yn y Waunfawr, Sir Gaernarfon, a Llwynygell, Ffestiniog. Pan oedd yn Llwynygell paratodd ar gyfer urddau eglwysig. Ordeiniwyd ef (yn Llanelwy) yn ddiakon yn 1862 a chafodd guradiaeth Rhosymedre, sir Ddinbych; urddwyd ef yn offeiriad yn 1863. Cafodd reithoraeth Llanfihangel Glyn Myfyr yn 1866 a symud yn 1872 i ficeriaeth Llangwm, sir Ddinbych, lle y bu farw 23 Ebrill 1895.

Daeth 'Elis Wyn' yn adnabyddus fel bardd a beirniad eisteddfodol, a bu'n golygu *Yr Haul* o 1885 hyd 1895. Enillodd ar bryddestau neu awdlau yn eisteddfodau Rhuddlan 1850, Ffestiniog 1854, Llanelli 1856, Rhuthyn 1857, Rhymni 1859, Caernarfon 1877, Llangurig 1882, eithr fe'i curwyd gan ei hen ysgolfeistr '*Eben Fardd*' yn eisteddfod Llangollen 1858. Bu'n beirniadu yn yr eisteddfod genedlaethol o tua 1874 ymlaen. Cyhoeddodd *Hanes y Cymry*, 1853; Awdl y Sabboth, c. 1856; Awdl Maes Bosworth, 1858; Awdl Farwnad Ab Ithel, c. 1878; *Buddugoliaeth y Groes* (prydeust), 1880; *Wreck of the London*, 1865; *Massacre of the Monks of Bangor Iscoed*, 1876; *Ordination Sermon*, 1893; etc. Cyfieithodd yn Gymraeg esboniad ar y pedair efengyl (gan yr esgob How), a golygodd ddau argraffiad o *Hymnau yr Eglwys*.

Priododd, 26 Rhagfyr 1854, yn Llanbeblig, Esther Mary Roberts, ysgolfeistres yn Llwynygell, Ffestiniog, a bu iddynt ferch a thri mab a ddaeth yn glerigwyr.

### Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

At y ffynonellau a enwyd ychwaneger:

*Yr Haul*, Mehefin 1895 a Medi 1942

*Y Geninen*, 1896, 1897, 1899

Y Brython (Tremadog), iii, 67

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Archifau LIGC: NLW MS 2126E, NLW MS 8856B, NLW MS 13701D

Clergy List

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Ellis Roberts

## Delweddau

John Thomas, Ellis Roberts (Canon) 'Ellis Wyn o Wyrfai'

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 2256394

Wikidata: Q18535896

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). ROBERTS, ELLIS ('Elis Wyn o Wyrfai'; 1827-1895), ei dad MORRIS ROBERTS ('Eos Llyfnwy'), a'i daid ROBERT MORRIS ('Robin Ddu Eifionydd'). Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-ELI-1827>

Prifwedd

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LIGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiarffwrdd gan  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government